



Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 11 Chwefror 2021

Annwyl riant / ofalwr,

Wrth i ni nesáu at wyliau hanner tymor, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth, eich dealltwriaeth a'ch amynedd ers dechrau'r flwyddyn. Rwy'n ddiolchgar i bob yr un ohonoch am bopeth ry'ch chi wedi'i wneud i gynorthwyo gyda dysgu eich plentyn, ysgol eich plentyn a'r cyngor dros yr wythnosau diwethaf.

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams diwedd mis diwethaf (Ionawr), gynlluniau i alluogi disgyblion i ddechrau dychwelyd i'r ysgol yn raddol o ddydd Llun, 22 Chwefror gan ddechrau gyda'r dysgwyr ieuengaf mewn ysgolion cynradd.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i ysgolion a'i leoliadau blynyddoedd cynnar i sicrhau bod dysgwyr oedran cyfnod sylfaen yn dychwelyd yn ddiogel ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Dyma'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer dysgwyr cyfnod sylfaen mewn dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar a Derbyn, a Blynyddoedd Un a Dau (plant rhwng tair a saith oed):

- Dydd Llun, 22 Chwefror - Diwrnod paratoi cyn i ddysgwyr y cyfnod sylfaen dychwelyd yn raddol
- Bydd dysgwyr mewn dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar a Derbyn, a Blynyddoedd Un a Dau yn dechrau dychwelyd yn raddol ac yn hyblyg i'w hysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar o ddydd Mawrth, 23 Chwefror, gyda'r nod y bydd pob dysgwr cyfnod sylfaen wedi dychwelyd erbyn dydd Gwener, 26 Chwefror.

Bydd penaeithiaid yn cysylltu â rhieni neu warcheidwaid gyda manylion penodol ar gyfer ysgolion eu plant.

Bydd pob ysgol ym Mhowys ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol ym mhob grŵp oedran o ddydd Llun, 22 Chwefror.

Wrth i ddysgwyr dychwelyd ar ôl y gwyliau hanner tymor, gofynnir i rieni a gofalwyr wisgo eu plant mewn dillad cynnes sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac fel y gall ysgolion awyru lleoliadau er diogelwch dysgwyr a staff.

Bydd dysgwyr ysgolion cynradd wyth oed a hŷn a dysgwyr ysgolion uwchradd

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



yn parhau â'u dysgu ar-lein hyd nes y clywir yn wahanol.

Diogelwch ein dysgwyr a staff ysgolion yw ein prif flaenoriaeth ac rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau cynnar i'w helpu gyda'r gwaith paratoi sydd ei angen i groesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgol.

Bydd y diwrnod paratoi ddydd Llun, 22 Chwefror yn rhoi'r cyfle i staff i wneud yn siŵr bod popeth yn ei le fel bod dysgwyr oed cyfnod sylfaen yn gallu dychwelyd yn ddiogel.

Fodd bynnag, rwyf am fod yn glir, os bydd amgylchiadau'n newid a chynnydd yng nghyfraddau trosglwyddo Covid-19 yn y sir, yna bydd ein hysgolion dim ond ar agor ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol.

Wrth i ysgolion baratoi i groesawu dysgwyr yn ôl yn raddol, mae'n hanfodol bod pob teulu'n chwarae eu rhan drwy ddilyn y canllawiau yma yng Nghymru ac nad ydynt yn cymysgu y tu allan i'r ysgol i atal lledaenu Covid-19. Mae llawer o staff ysgolion a rhieni yn bryderus pan fyddant yn clywed adroddiadau am deuluoedd yn cymysgu a'i gilydd mewn digwyddiadau gyda phlant yn aros dros nos mewn cartrefi eraill.

Ar ôl hanner tymor, bydd ysgolion yn dal i fod ar agor i blant gweithwyr hanfodol yn ogystal â dysgwyr sy'n agored i niwed ym mhob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae agor ysgolion yn raddol yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch ein dysgwyr a'n staff, felly bydd rhaid i grwpiau blynyddoedd eraill aros gartref.

Hoffwn ddiolch i ysgolion am eu hymdrechion parhaus i gefnogi disgyblion yn ystod y cyfnod anodd hwn a hoffwn ddiolch hefyd i rieni am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod digynsail hwn o darfu ar ein hysgolion.

Yn gywir,

Cyng. Phyl Davies
Aelod Portffolio – Addysg ac Eiddo